

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

YR ADEILADU

Byddwn yn addoli yn Neuadd y Pentref yr wythnos nesaf a phob Sul ar ôl hynny hyd nes y caiff y gwaith ei gwblhau. Bydd cwmni Edmunds Webster o Abertawe yn dechrau ar y gwaith ben bore fory. Rydym yn gobeithio y bydd modd cael mynediad i'r Ganolfan yn ystod y cyfnod adeiladu.

ARGYFWNG Y FFOADURIAID

Rydym ni wedi sicrhau cyflenwad o amlenni casglu arbennig ar gyfer argyfwng gan Cymorth Cristnogol er mwyn i ni fedru cyfrannu'n ariannol at eu hapêl i helpu ffoaduriaid yn Ewrop a'r Dwyrain Canol.

Os na chawsoch amlen y Sul diwethaf, mynnwch un heddiw. Byddwn yn eu casglu dros y mis nesaf, er mwyn i'n cefnogaeth ni gael dechrau'n ddi-oed.

Y SULIAU NESAF

Hydref 4:

(Yn Neuadd y Pentref)
Oedfa Gymun dan ofal aelodau
Llantrisant, Meisgyn, Tonyrefail
Taflen: Gwilym Huws

Hydref 11:

Gwasanaeth Diolchgarwch
Taflen: Dafydd Roberts

Hydref 18:

Y Parchg. Hywel Wyn Richards
Llywydd: Rhiannon Humphreys

Taflen: Ros Evans

Hydref 25:

Y Parchg, Gethin Rhys
Llywydd: Wyn Rees
Taflen: Emlyn Davies

CASGLIADAU BWYD A DILLAD

Mae gan dimau Teuluoedd mewn Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflenwad digonol o ddillad ar y funud, felly fydd dim casglu yn ystod y misoedd nesaf. Maen nhw'n gofyn yn garedig i ni fod yn barod i ail-ddechrau yn y flwyddyn newydd, fel bo'r galw.

Bydd y casgliadau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn parhau tra bo'r capel yn cael ei atgyweirio a bydd y bocs casglu yng nghefn Neuadd y Pentref bob bore Sul. Maen nhw'n gofyn a allwn ni gasglu bocsys wyau hefyd, gan fod ffermwr lleol wedi addo cyflenwad o wyau iddyn nhw.

ELUSENNAU 2016

Daeth hi'n amser dewis elusennau ar gyfer rhannu cynnwys yr amlenni brown unwaith eto. Elusennau bach lleol yw'r rhain fel arfer, rhai y mae ychydig gannoedd o bunnoedd yn gwneud gwahaniaeth iddyn nhw. Os oes gennych awgrymiadau, rhowch wybod i **John**, 01443 218077 / johnllewt@hotmail.com neu **Ann**, 0292 0891 344 / ann.pentyrch@btinternet.com cyn diwedd mis Hydref.

Y GRONFA ADEILADU

Cofiwch bod y cyfraniadau ariannol at gronfa'r adeiladu i fod yn llaw'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd erbyn heddiw. Diolch yn fawr iawn.

LLYWODRAETHWYR YSGOLION

Mae Adran Addysg y Sir yn awyddus i benodi rhagor o lywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg i Fyrddau Llywodraethol ysgolion Cymraeg y sir. Rhagor o fanylion gan Non Morgan (01443178) Non.R.Morgan@rctcbc.gov.uk

Y DAFLEN A'R SGRINIAU

Rydym wirioneddol angen rhagor o bobl i helpu gyda'r daflen a'r sgriniau. Os medrwch helpu, mynnwch air gydag Emlyn Davies ar 02920 891344 neu emlyn.davies@which.net



CYLCH CADWGAN

**Nos Wener 2 Hydref
Y Ganolfan, Efail Isaf
8.00 pm**

Gareth F. Williams
Enillydd 'Llyfr y Flwyddyn' 2015

Cwmni'r Frân Wen

DRYCH

Bryn Fôn a Gwenno Hodgkins
Canolfan Gartholwg 8fed Hydref 7.30 p.m.
Tocynnau £8 a £6 (cons) 01443 219589

